# Prifysgol Caerdydd

# Polisi Chwythu'r Chwiban

# Mawrth 2025

Os oes angen copi o'r Polisi hwn arnoch mewn print bras neu fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiaeth a Risg: complianceandrisk@caerdydd.ac.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

**Polisi Chwythu'r Chwiban**

## 1. Diben a Chwmpas

1.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynnal ei busnes gyda gonestrwydd ac uniondeb. Mae ar brifysgolion, fel pob corff cyhoeddus, y ddyletswydd i gynnal eu busnes mewn modd cyfrifol ac agored ac i gydymffurfio â gofynion cyrff ariannu, egwyddorion eu Siarter a'u Statudau a'r paramedrau a amlinellir yn adroddiadau Pwyllgor Nolan.

1.2 Mae'r Brifysgol yn disgwyl safonau uchel o onestrwydd yn unol â'i gwerthoedd a'i pholisïau. Fodd bynnag, mae pob sefydliad yn wynebu'r risg y bydd pethau'n mynd o chwith o bryd i'w gilydd, neu y bydd yn llochesu ymddygiad anghyfreithlon neu anfoesegol heb fod yn ymwybodol o hynny. Mae diwylliant o fod yn agored ac yn atebol yn hanfodol er mwyn atal sefyllfaoedd o'r fath rhag digwydd, a mynd i'r afael â nhw pan fyddan nhw'n digwydd.

1.3 Dylai pob aelod o'r Brifysgol godi pryderon gwirioneddol am gamweddau cyn gynted â phosibl, er mwyn cynorthwyo'r Brifysgol i gymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny ac osgoi achosion mwy difrifol o dorri rheoliadau neu niwed i enw da.

1.4 Amcanion y polisi yw:

1.4.1 Annog Chwythwyr y Chwiban i roi gwybod am achosion amheus o gamweddau cyn gynted â phosibl, gan wybod y bydd eu pryderon yn cael eu hystyried o ddifrif a'u hastudio fel y bo'n briodol, ac y bydd eu cyfrinachedd yn cael ei barchu.

1.4.2 Rhoi arweiniad i Chwythwyr y Chwiban ynglŷn â sut i godi eu pryderon.

1.4.3 Rhoi sicrwydd i Chwythwyr y Chwiban y gallan nhw godi pryderon gwirioneddol heb ofni y bydd rhywrai yn dial arnyn nhw, hyd yn oed os bydd y pryderon yn anghywir.

1.5 Mae'r polisi hwn yn cynnwys pob aelod o gymuned y Brifysgol, gan gynnwys gweithwyr, Aelodau'r Cyngor, cyflenwyr a phartneriaid, ymgynghorwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr, interniaid, gweithwyr achlysurol, gweithwyr asiantaeth a myfyrwyr (y cyfeirir atyn nhw i gyd fel 'Chwythwyr y Chwiban' yn y polisi hwn). Caiff aelodau'r cyhoedd, sydd hefyd â phryderon ynghylch chwythu'r chwiban, anfon ymholiadau hefyd yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau hyn.

## 2. Diffiniadau

| | |
|---|---|
| **Datgelu er Lles y Cyhoedd** | Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y "Ddeddf"), yn berthnasol i unigolion sy'n codi pryderon gwirioneddol sy'n ymwneud â rhyw berygl go iawn neu bosibl, twyll neu ymddygiad anghyfreithlon neu anfoesegol arall. Mae'r Ddeddf yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i atal unigolion rhag cael eu cosbi, o ganlyniad i wneud datgeliad sy'n gymwys. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Datgeliad sy'n gymwys** | Mae datgeliad cymwys yn un sydd, yng nghred resymol y sawl sy'n gwneud y datgeliad, er budd y cyhoedd i'w ddatgelu e.e. ymddygiad anghyfreithlon neu anfoesegol (gweler yr enghreifftiau a restrir yn 4.1 isod). |
| **Chwythwr y Chwiban** | Defnyddir y term hwn i ddisgrifio unigolyn sy'n codi datgeliad cymwys yn unol â'r polisi hwn |
| **Chwythu'r chwiban** | Defnyddir y term hwn i ddisgrifio digwyddiadau pan fydd yr unigolyn yn datgelu camweddau neu beryglon honedig yn y Brifysgol, yn unol â'r polisi hwn |
| **Camarfer/ Camweddau Rheoli** | Mae hyn yn cynnwys ymddygiad amhriodol, anghyfreithlon neu esgeulus ar lefel Uwch Swyddog/Uwch Reolwr, a dylai fod yn sail ar gyfer yr ystyriaeth waelodol wrth ymchwilio i honiadau chwythu'r chwiban sy'n dod i law.<br>Mae gweithdrefn Chwythu'r Chwiban yn rhoi'r fframwaith ar gyfer ymdrin â phryderon difrifol ynghylch camweddau/camarfer ac nid ei diben yw mynd i'r afael â chwynion personol na herio penderfyniadau a wnaeth y Brifysgol yn briodol yn unol â gweithdrefnau sefydledig a rhesymol. |
| **Swyddog Chwythu'r Chwiban** | Y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol sy'n cyflawni rôl Swyddog Chwythu'r Chwiban. Dylech chi wneud cwynion chwythu'r chwiban i Swyddog Chwythu'r Chwiban, yn y lle cyntaf. |

## 3. Rolau a Chyfrifoldebau

3.1 Y Cyngor drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n bennaf gyfrifol am y polisi hwn, ac am adolygu ei effeithiolrwydd.

3.2 Y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol sy'n cyflawni rôl Swyddog Chwythu'r Chwiban, ac ef sydd â chyfrifoldeb gweithredol o ddydd i ddydd am y polisi hwn. Caiff rheolwyr a staff eraill sy'n delio â phryderon neu ymchwiliadau dderbyn cyngor ac arweiniad gan Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol, a all drefnu pecynnau briffio/hyfforddiant ar gyfer staff o bryd i'w gilydd.

3.3 Bydd Swyddog Chwythu'r Chwiban yn adrodd yn flynyddol i'r Cyngor (drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg) ar weithrediad y polisi, ac (yn amodol ar rwymedigaethau cyfrinachedd) a oes unrhyw ddatgeliadau wedi eu gwneud).

## 4. Meysydd a gwmpesir yn y Polisi hwn

4.1 Lluniwyd y polisi hwn i weithredu'r gofyniad o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, i atal unigolion rhag cael eu cosbi o ganlyniad i wneud datgeliad cymwys o ran chwythu'r chwiban. Chwythu'r chwiban yw datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag amau camweddau neu beryglon yn y gwaith. Gall hyn gynnwys amau camweddau ar y seiliau canlynol; (nid diben y canlynol yw bod yn rhestr gynhwysfawr):

- gweithgarwch troseddol
- methu â chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol
- camweinyddiad cyfiawnder
- perygl i iechyd a diogelwch
- niwed i'r amgylchedd
- twyll, camweinyddu neu gamarfer ariannol neu anariannol (gan gynnwys torri Rheoliadau Ariannol y Brifysgol neu ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus neu elusennol heb awdurdod a methu â datgelu gwrthdaro buddiannau difrifol)
- camarfer academaidd neu broffesiynol
- methu â chydymffurfio â Statudau, Ordinhadau a Rheoliadau'r Brifysgol
- ymddygiad anghyfreithlon neu gamarfer difrifol arall gan Uwch Swyddog (e.e. aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol) neu na ellir rhoi gwybod amdano yn unol â pholisi/gweithdrefn arall;
- cynorthwyo, annog neu oddef unrhyw un o'r materion uchod neu guddio unrhyw un o'r materion uchod.

4.2 Ni ddylid rhoi gwybod am faterion y mae gweithdrefnau priodol y Brifysgol eisoes yn bodoli ar eu cyfer yn unol â’r polisi hwn, er enghraifft:

- Gweithdrefnau Disgyblu Staff
- Gweithdrefnau Cwyno
- Gweithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr
- Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd (staff).
- Apeliadau Academaidd
- Disgyblu Myfyrwyr
- Aflonyddu (Urddas yn y Gwaith a Pholisi Astudio.)

4.3 Ni ddylid defnyddio'r polisi hwn i ailagor nac adolygu mater sydd eisoes wedi cael ei ystyried a'i gwblhau, yn unol â gweithdrefnau o'r fath.

4.4 Os ydych chi'n ansicr a yw rhywbeth wedi'i gynnwys o fewn cwmpas y polisi hwn, dylech chi ofyn am gyngor gan Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol a fydd yn cyfeirio'r mater at Swyddog Chwythu'r Chwiban i gael penderfyniad ynglŷn â'r weithdrefn briodol i'w defnyddio. Bydd penderfyniad Swyddog Chwythu'r Chwiban yn derfynol.

**5. Codi pryder ynghylch Chwythu'r Chwiban**

5.1 Anogir holl Aelodau'r Brifysgol i godi pryderon dilys am gamweddau neu beryglon, cyn gynted â phosibl. Mae'r Brifysgol yn dymuno hyrwyddo diwylliant o fod yn agored a bydd yn cefnogi unigolion sy'n codi pryderon gwirioneddol hyd yn oed os byddan nhw'n anghywir.

5.2 Bydd yr holl bryderon yn cael:

- eu cydnabod
- eu recordio a'u
- hadolygu a phan fo'n briodol, byddan nhw'n destun ymchwiliad.

5.3 Mae'r Brifysgol yn gobeithio y bydd staff, mewn llawer o achosion, yn gallu codi unrhyw bryderon yn y lle cyntaf â rheolwr llinell neu'r rheolwr uchaf nesaf ato (os yw'r mater yn ymwneud â'r rheolwr llinell). Gellir gwneud hyn yn bersonol neu'n ysgrifenedig. Efallai y byddan nhw'n gallu cytuno ar ffordd o ddatrys eich pryder yn gyflym ac yn effeithiol. Mewn achosion perthnasol efallai y byddan nhw'n cyfeirio'r mater at Swyddog Chwythu'r Chwiban.

5.4 Os bydd y mater yn fwy difrifol, neu os ydych chi o'r farn nad yw'r rheolwr wedi mynd i'r afael â'ch pryder, neu y byddai'n well gennych chi beidio â'i godi gydag ef am unrhyw reswm, neu os nad ydych chi'n aelod staff, dylech chi gysylltu â Swyddog Chwythu'r Chwiban (sef, y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol). Fodd bynnag, os yw'r datgeliad yn ymwneud â Swyddog Chwythu'r Chwiban, dylech chi gysylltu â'r Profost a Dirprwy Is-Ganghellor. Nodir y manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

5.5 Wrth godi pryder, dylai Chwythwyr y Chwiban roi disgrifiad o'r pryderon gan gynnwys, pryd bynnag y bo modd, gwybodaeth fanwl gywir megis dyddiadau digwyddiadau, enwau'r rheiny sydd ynghlwm, cyfarfodydd neu ohebiaeth sydd wedi digwydd, a chyfeiriad at ddogfennau neu bolisïau perthnasol.

5.6 Os bydd angen, byddwn ni'n trefnu cyfarfod gyda chi cyn gynted â phosibl i drafod eich pryder. Mae gennych chi'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfodydd o dan y polisi hwn (gweler *Canllawiau ar Staff yn trefnu cyfarfodydd*). Gallwch chi hefyd ddod â chydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur i unrhyw gyfarfodydd yn unol â'r polisi hwn. Rhaid i'ch cydymaith barchu cyfrinachedd eich datgeliad yn ogystal ag unrhyw ymchwiliad dilynol.

5.7 Yn dilyn adolygiad cychwynnol o'r mater a godwyd, os bydd yn bosibl, byddwn ni’n anelu at roi adborth ichi ynghylch a yw'r mater hwn yn cael ei gwmpasu yn y polisi hwn a sut rydyn ni’n bwriadu ymdrin â'r mater.

5.8 Os yw mater yn ‘peri pryder', fel y cyfeirir ato yn Adran III, paragraff 5 yn Ordinhad 12, ynghylch aelod staff academaidd, caiff y mater ei gyfeirio’n gyfrinachol at Bennaeth perthnasol yr Ysgol/Gwasanaeth Proffesiynol, ynghyd ag enw Chwythwr y Chwiban, os bydd hyn yn hysbys. Bydd chwythwr y chwiban sydd am fod yn hysbys i’r rhai sydd yn ymchwilio i’r datgeliad a neb arall, yn cael cynnig tynnu’r datgeliad yn ei ôl os bydd parhau â’r ymchwiliad yn arwain at sefyllfa pan fydd y person neu bobl sydd yn destun y datgeliad yn cael gwybod beth yw ei enw.

5.9 Os ystyrir bod y mater yn codi pryderon a fyddai'n dod o dan gylch gwaith unrhyw weithdrefn ddisgyblu arall yn y Brifysgol, caiff y mater ei gyfeirio at Bennaeth priodol yr Ysgol/Gwasanaeth Proffesiynol i'w ystyried yn unol â’r gweithdrefnau hynny.

5.10 Os bydd gweithdrefnau eisoes er mwyn ymchwilio i honiadau penodol, e.e. Polisi Llwgrwobrwyo/Ymchwilio i Afreoleidd-dra Ariannol, caiff y mater ei gyfeirio at y person (y bobl)/corff perthnasol yn unol â’r gweithdrefnau hynny.

5.11 Os yw'r mater wedi ei gyfeirio at berson (pobl)/corff arall, cewch wybod a fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

**6. Cyfrinachedd**

6.1 Nod y Brifysgol yw sicrhau bod Chwythwyr y Chwiban yn teimlo eu bod yn gallu lleisio pryderon sy’n ymwneud â chwythu'r chwiban mewn ffordd agored yn unol â’r polisi hwn. Fodd bynnag, os ydych chi eisiau mynegi eich pryder yn gyfrinachol, byddwn ni’n gwneud pob ymdrech i sicrhau nad ydyn ni’n datgelu eich enw i unrhyw un heblaw'r rheiny sy'n ymchwilio i'ch pryderon. Os bydd angen i unrhyw un arall wybod beth yw eich enw er mwyn ymchwilio'n ddigonol i'r pryder, byddwn ni’n trafod hyn gyda chi yn gyntaf.

6.2 Nod y Brifysgol yw hyrwyddo diwylliant lle bydd unigolion yn teimlo'n hyderus y gallan nhw fynegi eu pryderon. O ganlyniad, gofynnir i unrhyw un sy'n rhoi gwybod am bryder roi ei enw wrth fynegi ei bryder. Efallai y bydd ymchwiliad priodol yn anos neu'n amhosibl os na allwn ni gael rhagor o wybodaeth gan Chwythwr y Chwiban. Mae hefyd yn anos pennu hygrededd yr honiadau.

6.3 Bydd pryderon a fynegir yn ddienw yn cael eu hystyried yn ôl disgresiwn y Brifysgol yn unol â:

- Difrifoldeb y materion dan sylw;
- Y tebygolrwydd o gadarnhau'r honiad gan ffynonellau credadwy eraill.

6.4 Dylai chwythwyr y chwiban sy'n pryderu am ddial posibl os bydd eu henw yn cael ei ddatgelu fynegi eu pryderon gyda Swyddog Chwythu'r Chwiban (neu'r Dirprwy Is-

Ganghellor fel y bo'n briodol) ac yna gellir cymryd camau priodol i gadw cyfrinachedd. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth am gyfrinachedd, gallwch chi ofyn am gyngor gan yr Undebau Llafur, un o Bartneriaid Busnes AD neu 'Protect' - yr elusen chwythu'r chwiban annibynnol, sy'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol (mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn).

6.5 Unwaith y bydd datgeliad wedi'i wneud yn unol â’r polisi hwn, ni fydd Chwythwr y Chwiban yn cyfleu'r wybodaeth a roddir, na materion sy'n codi o'r ymchwiliad, i unrhyw berson neu bobl y tu allan i'r Brifysgol, ac eithrio fel y nodir ym mharagraff 12 isod.

**7. Ymchwiliad a Chanlyniad**

7.1 Unwaith y byddwch chi wedi mynegi pryder, bydd asesiad cychwynnol yn cael ei gynnal i bennu cwmpas unrhyw ymchwiliad. Bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod ichi am ganlyniad ei hasesiad. Efallai y bydd gofyn ichi fynd i gyfarfodydd ychwanegol er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth.

7.2 Mewn rhai achosion, efallai y bydd y Brifysgol yn penodi ymchwilydd neu dîm o ymchwilwyr, gan gynnwys staff sydd â phrofiad perthnasol o ymchwiliadau neu wybodaeth arbenigol am y pwnc dan sylw. Efallai y bydd yr ymchwilydd/ymchwilwyr yn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau, fel y gall y Brifysgol leihau'r risg o gamweddau yn y dyfodol.

**8. Gweithdrefn – Adolygiad rhagarweiniol a’r cyfnod anffurfiol:**

8.1 Unwaith y bydd datgeliad wedi ei wneud, bydd y Brifysgol yn gwneud y canlynol:

i. cofnodi ei fod wedi ei dderbyn (ynghyd ag unrhyw gamau dilynol);

ii. cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r datgeliad. Swyddog Chwythu'r Chwiban neu ei enwebai fydd yn gwneud hyn er mwyn pennu:

a) a yw'r datgeliad yn dod o dan gwmpas y polisi Chwythu'r Chwiban;

b) a oes unrhyw dystiolaeth ar yr olwg gyntaf i awgrymu y dylid ymchwilio i'r mater, neu benodi person neu bobl i ymchwilio iddo ar ei ran neu eu rhan;

8.2 Yn dilyn yr adolygiad rhagarweiniol, bydd Swyddog Chwythu'r Chwiban yn gwneud penderfyniad rhagarweiniol ac yn rhoi gwybod i Chwythwr y Chwiban, os bydd yn bosibl ac yn briodol gwneud hynny:

i. y bydd y datgeliad yn destun ymchwiliad pellach yn unol â’r weithdrefn ymchwilio ffurfiol (gweler 9 isod);

ii. bod ymchwiliad wedi bod yn sgîl y datgeliad a bod camau perthnasol wedi eu cymryd; neu

iii. bod y datgeliad wedi dod i sylw person (pobl) a enwir a chanddo (ganddynt) yr awdurdod i weithredu ar y mater; neu

iv. bod y datgeliad wedi cael ei wrthod gan nad oedd unrhyw sail ar gyfer ymchwiliad.

8.3 Caiff Swyddog Chwythu'r Chwiban ddiystyru unrhyw honiadau a ystyrir yn faleisus, yn wamal a/neu'n flinderus.

**9. Gweithdrefn - Ymchwiliad Ffurfiol**

9.1 Pan fydd yr adolygiad rhagarweiniol (a amlinellir yn adran 8 uchod) yn nodi bod angen ymchwiliad ffurfiol, bydd y canlynol yn berthnasol:

9.1.1 Bydd y Brifysgol yn penodi ymchwilydd neu dîm o ymchwilwyr gan gynnwys staff sydd â phrofiad perthnasol o ymchwiliadau neu wybodaeth arbenigol am y pwnc dan sylw, i gynnal ymchwiliad ffurfiol.

9.1.2 Bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r person neu'r bobl sy'n destun y datgeliad am sylwedd y datgeliad ynghyd ag unrhyw dystiolaeth sy'n ei ategu;

9.1.3 Bydd y Brifysgol yn cynnig cyfweld â'r person neu'r bobl sy'n destun y datgeliad, a chaiff cynrychiolydd undeb llafur/neu gydweithiwr fynd gydag ef neu nhw;

9.1.4 Yn dilyn y cyfweliad, bydd y Brifysgol yn llunio adroddiad ar eu canfyddiadau gan gynnwys argymhellion ynghylch pa gamau pellach, os o gwbl, y mae angen eu cymryd. Bydd unrhyw argymhellion yn cael eu cyfeirio at y swyddogion/adran briodol i’w gweithredu; (gall hyn gynnwys camau adfer/camau disgyblu).

9.2 Bydd y Brifysgol yn ceisio rhoi gwybod i Chwythwr y Chwiban am gynnydd yr ymchwiliad a'i amserlen debygol, os bydd yn briodol gwneud hynny. Fodd bynnag, weithiau efallai y bydd yr angen am gyfrinachedd yn ei hatal rhag rhoi manylion penodol am yr ymchwiliad neu unrhyw gamau disgyblu a gymerir o ganlyniad iddo. Dylai Chwythwr y Chwiban drin unrhyw wybodaeth am yr ymchwiliad yn gyfrinachol.

9.3 Os deuir i'r casgliad bod Chwythwr y Chwiban wedi gwneud honiadau'n faleisus, yn wamal, yn flinderus a/neu gyda golwg ar fantais bersonol, ac yn enwedig os bydd yn parhau i'w gwneud, gellir cymryd camau disgyblu neu gamau priodol eraill yn erbyn yr unigolyn dan sylw.

**10. Adrodd ar y Canlyniadau**

10.1 Ym mhob achos, bydd adroddiad ar ganlyniad unrhyw ymchwiliad yn cael ei roi i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

10.2 Bydd Swyddog Chwythu'r Chwiban, ar ran y Brifysgol, yn cadw cofrestr o'r holl ddatgeliadau a’r canlyniadau.

**11. Os nad yw Chwythwr y Chwiban yn fodlon**

11.1 Er na ellir gwarantu'r canlyniad a geisir, bydd y Brifysgol yn ceisio delio â phryder Chwythwr y Chwiban mewn ffordd deg a phriodol. Drwy ddefnyddio'r polisi hwn, gall Chwythwr y Chwiban helpu'r Brifysgol i gyflawni hyn.

11.2 Efallai na fydd Chwythwr y Chwiban yn gofyn am adolygu unrhyw benderfyniad a wnaed gan Swyddog Chwythu'r Chwiban, ond os bydd yn pryderu am y ffordd yr ymdriniwyd â'i bryder, gall Chwythwr y Chwiban ei godi gydag un o'r enwau cyswllt allweddol eraill a nodir ar ddiwedd y polisi hwn.

**12. Datgeliadau allanol**

12.1 Nod y polisi hwn yw darparu mecanwaith mewnol i adrodd am unrhyw gamweddau yn y Brifysgol, ymchwilio iddyn nhw a'u hunioni. Yn y rhan fwyaf o achosion felly, ni ddylai Chwythwr y Chwiban fod o'r farn bod angen rhybuddio unrhyw un yn allanol.

12.2 O dan rai amgylchiadau, mae'r gyfraith yn cydnabod y gallai fod yn briodol i Chwythwr y Chwiban roi gwybod i gorff allanol am eu pryderon, megis rheoleiddiwr. Yn anaml iawn, os byth, y bydd yn briodol rhybuddio'r cyfryngau. Byddai'r Brifysgol yn annog Chwythwyr y Chwiban yn gryf i geisio cyngor cyn rhoi gwybod am bryder yn allanol. Mae gan yr elusen annibynnol sy'n ymwneud â chwythu'r chwiban, Protect, linell gymorth gyfrinachol. Mae ganddi hefyd restr o reoleiddwyr rhagnodedig yn achos adrodd am fathau penodol o bryder. Mae eu manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

12.3 Bydd pryderon chwythu'r chwiban fel arfer yn ymwneud ag ymddygiad staff y Brifysgol, ond weithiau efallai y byddan nhw'n ymwneud â gweithredoedd trydydd parti. O dan rai amgylchiadau, bydd y gyfraith yn amddiffyn unigolyn os bydd yn codi'r mater gyda'r trydydd parti yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn annog unigolion i roi gwybod am bryderon o'r fath yn fewnol yn y lle cyntaf. Cysylltwch â'ch rheolwr llinell neu Swyddog Chwythu'r Chwiban neu berson priodol arall y cyfeirir ato paragraph yn 5, i gael arweiniad ar hyn.

12.4 Nid oes dim yn y polisi hwn sy'n dileu hawl unrhyw unigolyn rhag rhoi gwybod i'r heddlu am drosedd a amheuir, ac nid oes unrhyw beth yn y polisi hwn y bwriedir iddo ddileu, neu gael effaith dileu, unrhyw hawl yn unol â'r Ddeddf.

**13 Amddiffyn a chefnogi Chwythwyr y Chwiban**

13.1 Ni ddylai chwythwyr y chwiban ddioddef unrhyw driniaeth niweidiol o ganlyniad i fynegi pryder gwirioneddol. Mae triniaeth niweidiol yn cynnwys diswyddo, camau disgyblu, bygythiadau neu driniaeth anffafriol arall sy'n gysylltiedig â chodi pryder. Os bydd Chwythwr y Chwiban o'r farn ei fod wedi dioddef unrhyw driniaeth o'r fath, dylai roi gwybod i Swyddog Chwythu'r Chwiban ar unwaith. Os nad yw'r mater yn cael ei ddatrys, dylai Chwythwr y Chwiban ei godi'n ffurfiol gan ddefnyddio naill ai'r Weithdrefn Gwyno i Staff neu'r weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr, fel y bo'n briodol.

13.2 Rhaid i staff beidio â bygwth neu ddial ar Chwythwyr y Chwiban mewn unrhyw ffordd. Os bydd staff yn ymwneud ag ymddygiad o'r fath, gallen nhw wynebu camau disgyblu. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan Chwythwr y Chwiban yr hawl i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn aelod staff yn bersonol yn sgîl unrhyw ymddygiad o'r fath.

13.3 Mae llinell gymorth a chwnsela gyfrinachol ar gael i Chwythwyr y Chwiban sy'n codi pryderon yn unol â’r polisi hwn. Nodir y manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

13.4 Os bydd datgeliad chwythu'r chwiban yn cynnwys aelod staff sydd naill ai yn achwynydd neu’n un o'r unigolion y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef, bydd Swyddog Chwythu'r Chwiban yn trafod unrhyw gymorth o ran Adnoddau Dynol y gellir ei gynnig i'r staff dan sylw gyda’r Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant – gan gynnwys rhoi enw cyswllt ar gyfer cwestiynau am y weithdrefn. Yn achos myfyrwyr, caiff Swyddog Chwythu'r Chwiban drafod gofynion cymorth gyda'r Cyfarwyddwr Cefnogi a Lles Myfyrwyr.

## 14 Gweithredu

14.1 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddirprwyo unrhyw swyddogion yn y polisi, yn ôl yr angen.

14.2 Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol

## 15 Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Gweithdrefnau Disgyblu Staff
- Gweithdrefnau Cwyno
- Gweithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr
- Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd
- Apeliadau Academaidd
- Disgyblu Myfyrwyr
- Aflonyddu (Urddas yn y Gwaith a’r Polisi Astudio)
- Polisi Datgan Buddiannau (ar y gweill)
- Polisïau Atal Twyll ac Atal Llwgrwobrwyo
- Polisi Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl:
- Rheoliadau TG
- Rheoliadau Ariannol

## 16 Cymeradwyo a Chyhoeddi’r Adolygiad

16.1 Bydd Swyddog Chwythu'r Chwiban yn adolygu'r polisi hwn yn unol ag unrhyw ddiweddariadau yn y ddeddfwriaeth berthnasol a/neu ganllawiau perthnasol yn y sector.

16.2 Y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol yn y pen draw am gymeradwyo'r polisi hwn.

16.3 Bydd y polisi hwn yn cael ei gyhoeddi ar dudalen Polisïau a Gweithdrefnau Gwefan y Brifysgol.

## 17 Manylion Cyswllt

| | |
|---|---|
| **Swyddog Chwythu'r Chwiban** | Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol<br>*coo@caerdydd.ac.uk*<br>coo-pa@caerdydd.ac.uk |
| **Swyddog Arall o ran Chwythu'r Chwiban**<br>**(Oni bai bod y pryder yn ymwneud â'r Prif Swyddog Gweithredu caiff yr holl bryderon eu codi gyda'r Prif Swyddog Gweithredu yn y lle cyntaf)** | Profost a Dirprwy Is-Ganghellor<br>*DeputyVC@caerdydd.ac.uk*<br>DVC-PA@caerdydd.ac.uk |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg** | Drwy ysgrifennydd y Pwyllgor Archwilio a Risg:<br>E-bost: *HolbrookV@caerdydd.ac.uk* |
| **I gael cyngor ar y polisi / y weithdrefn** | Tîm Cydymffurfiaeth a Risg, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol<br>*Complianceandrisk@caerdydd.ac.uk* |
| **Amddiffyn**<br>(Elusen chwythu'r chwiban annibynnol) | Llinell gymorth: 0203 117 2520<br>E-bost: whistle@pcaw.co.uk<br>Gwefan: www.pcaw.co.uk |

Rheoli Fersiynau

| | |
|---|---|
| Enw'r Ddogfen | Polisi Chwythu'r Chwiban |

| | |
|---|---|
| Noddwr y Polisi ar Fwrdd Gweithredol y Brifysgol | Y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Perchennog y Polisi | Pennaeth Cydymffurfio a Risg, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Awdur(on) y Polisi | Pennaeth Cydymffurfio a Risg, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Rhif y fersiwn | Drafft 3 |
| Canlyniad yr Effaith ar Gydraddoldeb a Dyddiad Cyflwyno'r Ffurflen | Dangosodd yr adolygiad cychwynnol nad oedd unrhyw broblemau yn amodol ar fodloni darpariaeth fformat amgen |
| Canlyniad a dyddiad yr Asesiad Preifatrwydd (lle bo hynny'n berthnasol) | Ddim yn berthnasol |
| Dyddiad Cymeradwyo | Mawrth 2025 |
| Cymeradwywyd gan | Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Dyddiad Gweithredu | Mawrth 2025 |
| Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf | Mawrth 2025 |
| Dyddiad yr Adolygiad Nesaf | Mawrth 2026 |
| At Ddefnydd y Swyddfa – Allweddeiriau ar gyfer y nodwedd chwilio | Chwythu'r Chwiban, Datgelu er Lles y Cyhoedd |